# DWY O
# GERDDI
# NEWYDDION,

Y gyntaf; Ymddiddan rhwng Dyn a'r Ddaer, y Dyn yn cwyno o achos sychdwr, a'r Ddaear yn atteb beth yw'r achos.

*Dy nefoedd hefyd y rhai sydd uwch dy ben a fyddant yn bres a'r Ddaear, yr hon sydd oddi tanat, yn haiarn: yr Arglwydd a rydd yn lle gwlaw dy Ddaear, Llwch a Lludw.* Deut. 28. 23, 24.

Yn ail; Yn rhoddi sampl, ynghyd ag ychydig o gyngor i Ferched Ieuengc rhag bod yn rhy feddalion wrth Garu.

I'w chanu ar *Grying Windsor.*

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan STAFFORD PRYS, tros WILLIAM MORGAN. 1765.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*Cerdd ar Ffolena, i'w Chanu pob yn ail Penbill.*

YR hen ddaear fy dar fyd oedd lala brafia o bryd
I roeddit ti ath ffrwythydd ffri yn ddaioni i borth i'r Byd
Yn Yde modde maith yn borfa gwcha gwaith
Yn weirie'n wir yn llenwi'r Tir
Mae yn sicer eirwir iaith
Winllannoedd llawn yn Erddi iawn
Mewn dawn pob grawn yn gry
A'r Cymylau mawr yn lleitho yn llawr
A'i gwawr yn ddirfawr ddu
Ond wyt rwan brudd a llwyd dy rydd
A'th Feilydd Dolydd da
Yn gras boethu cyd beth yw dy fryd
Fod felly ar hyd yr ha
Dy bechod hynod hir sy'n peri i'r gledi glir
I wneud yn gaeth i'r gwr a'm gwnaeth
Fod wrthai yn waeth yn wir
Yr haul yn tesog wreiog ry'm am lliwiodd y leni'n ( llym
Heb wllys cu Jehofa gry nid allai dysi dim
Drugaredd fawr mor fal iw'n gwawr
Ddyfod beth o'm llawr er lles
Gallase ar dro holl yd y fro gwn grina gan y gwres
Edifarhewch neu gwaeth y gewch ow gwellhewch yn ( llwyr
Daw helynt fyn ar bant a bryn
Yr Arglwydd gwyn ai gwyr
Mae galedi y leni ar led fydd cri i dylodion cred
Ni cheiff y gwan mewn Tre na Llan
Fawr lonydd gan ddyled
O waith na ddaethost ti a newydd ffrwythydd ffri
Fe fydd ger bron trwy'r Ynys hon

Gae

X205091171

Gan waelion greulon grî
O brinder ŷd ag enllyn dryd
Bydd adfyd pen d pwys
O waith bod dy wawr mor ſal yn awr
Bydd helynt dirfawr dwys
Rhoſt Wair ac Yd do llawer pryd
A llawnfyd wiwbryd waith
I ddynion drwg oedd gynt au gwg
Ar gilwg mawr ddrwg maith
Deutoronom glyw wel darllain eirieu Duw
Cei weld yn brydd melldithion ſydd
Yn ddrwg beunyd os wyt byw *Deut* 28, 18.
Y nefoedd ſu etto yn nes yn bryſſur a wnau'n bres
A minne a dru yn haiarn du
Yn llychu heb dim lles
Y cynnar law i mi ni ddaw yn lludw draw mi dro
A gwres o'r ne fel Ffwrnas gre
A luſc Bantie a Brynie bro
Fel hyn ar hunt yn *Samaria* gynt
Y gwnaeth y poethwynt bar
Am ddrwg di ri ſŷ llolgi i
A rhoi galedi gwedi iw gwar
Mae'r Annuwiol farwol ſyd yn llwyddo lawer pryd
Ath dithe yn gre yn rhoi iddo fe
Bob ffrwythau Gweiriau agyd
Mae'r dynion hyn ar daith heb ofni marw chwith
Heb ddawn heb Dduw er hynnu yn byw
Heb ddeſtryw Meirw maith
Au Tafodu a fydd yn gan trwy'r dydd
Am dy ddedwydd ffrwythydd ffri
Heb geiſio i'w lle un awr mor Ne

Ond

Ond dy bethe doethe di
Cae rhain ger llaw y cynnar wlaw
A'r diweddar draw yn ddi drift
Hen grefydd gre heb ffydd i'w lle
Ond eu Duwiau yw eu Codau au Cest.
I'r Annuwolion fryntion tryd y tur post aur ryw hyd
Oni thron at Dduw ni byddant byw
Ddim dan y cyfriw cyd
Mae howddfyd ymhob oes oflaen adfyd lwyrfyd loes
Y pechadur hu medd gair Duw cu
A geiff gynu am ddal groes
Pan becho Gwlad a digio'r Tad fe ddenfyn frad i'r fro
Nid eill *Noah* a fu *Job*, *Daniel* gu
Mo'i nadu i drengu dro *Ezec*, 1. 13. 14.
Os daw barneu mawr o'r Nef i lawr
Bydd drwg iw gwawr au gwedd
Fe dorriff Duw Ffon Bara'r byw
A'i hoyw fyd di hedd.
Ow yr ddaer fyddar faith mae'n rhyfedd Duw a
Dy ado draw y leni heb law ( wnaeth
O ran ein dirfawr daith
A rhoi'r sychdwr mwya erioed i grino dail y coed
Ath fryniau ffraeth au lliw fel draeth
Ath feuiydd aeth yn foed
Dy gosbi di o'n hachos ni mawr ydi'r gledi glir
Moes air dy syn yn y tost fyd tyn
A beri hyn yn hir
Ow yr Ddaear ddu mae 'Nifeiliaid lu
Yn bretu darfu'r dwr
Fel roedd hi ar nynt efo *Ahab* gynt
O waith y sAchwynt siwr.

Melldithiodd

Melldithiodd fi am llun yr awr cynta pechodd dyn
Yn ddrain diles yn esgull rhes
Medd hanes Duw ei hun
Gwaith pechod sy etto yn siwr
Oni ymrowch dan Ser am Nefoedd ben
Bydd garw i lawer Gwr
Am odineb mawr sy'n llond fy llawr
Daw helynt dirfawr dwys
Yw llyncu hwy rhyfeddwch fwy
Na ymagorwn ni yn ddwy gwys
Gall llawer rhai sy'n rho arnai fai
Nad oes ond llai ar fy llawr.
Fod yn ddi ysglent cyn talwi Rhen
Ym mhridd y Fynwent fawr.

Os marwolaeth alaeth yw yn fuan a rydd Duw
Mae arnat ti ffrwyth digon ffri
I borthi pob Dyn byw
Nid rhaid mor cwynfan fawr am fod mor sal dy wawr
Caiff pawb eu rhaid yn bur di baid
Pan font yn llaid yn llawr
Ond y daiar synow dwad hyn
A ddaw terfyn ar fyd tost
Sy'n dal y gwan ymhob rhyw fan
I gwynfan dan fawr gost
Pa bryd y try y sychdwr cry i dyfa bryn y dol
I gael o'r wlad gyd tewi ai nad
A pheidio ai siarad ffol.

Wyth mlynedd rhyfedd ri a roed i'm crino i
Tair etto sydd i fod yn brydd i rol llawer grydd dan
Y diwaetha yw'r tosta o'r tair (gri
Heb gymmod un mab Mair
Ai drugaredd draw i ddanton glaw

Neu gwir yw'r braw ar gair
B dd oerni maeth flynyddoedd ſaith a thywydd llaith
A diweddar Yd fydd hyd ddai o hyd ( a lli
Rhaid dewedyd hyn i ti
Na chwyna er hun gall fod yn ſyn
Dy gorphyn di'n gwys
Ond dyro di ar un Duw tri dy weddi ddifri ddwys.

*Ellis Roberts* ai Cant.

*Cerdd o gyngor i Ferched ieuengc.*

POB meinir gwirdeg ſy heb golli mo'i geirda
I wrando gwir ſiampal trwch amal trowch yma
Chwi glywſoch rai'n dwedyd mi wnhetyd myn haiedd
Y caid gan y gwirion yr union gwirionedd
Trafo chwi yn weddus nwyfus nod
Mewn gallu clir heb golli'ch clod
Mae hyn yn bod yn amal
Lle bo chwi'n caru'n ddyfal
Bydd weithie droie o dreial
A phŵyſe o'r nwydau anwadal
A chwithe'n feddal wamal wyn
A ymrowch i doddi'm mreichiau'r Dyn
Ond gellwch wybod yn ddi wad
Na chair yn rhwydd mor chwarau'n rhad
Er caffel munud digri i bleſio cnawd a ffanſi
Ni wiw mor gwadu gwedi pan fyddo'r bol yn codi
Daw'r ſwn a'r ſhi i llenwi'r wlad
A holi toſt pwy ydyw'r Tad.

2

A chwithe fydd rhyngddynt mewn helynt anhylaw
Yn chwenych drwy ddwyſter ei briodi e'n ddiſtaw

Ag

Ag ynte gan goeced a ddywed mor ddiwall
Eich bod chwi'n rhy fwynaidd do'n iraidd dan arall
A'ch gado wneiff i gadw nad
Cewch grio a gweiddi a rhegu'n rhad
Eiff ynte o'r wlad mor lydan
Os ceiff ei ewyllys allan
Fe'ch gedur fwyngu feingan
I ochneidio a chwyno eich hunan
Er bod y fwynlan ddydd y fu
Fe eiff yn gas oi hoffi'n gu
A byddwch chwithe meinir fwyn
'Rol lledu'ch traed yn llwydo'ch Trwyn
A'ch ffrindie'n anfwyn goegedd
Wrth basio yn codi byfedd
Gan fiarad geiriau furedd
O'ch gweled mor fufgrelledd
Oh! mor hoewedd y bydd rhai
Drwy daeredd dwrw yn bwrw bai.

3

A phan fo'r dyn bychan yn druan ddi ymdrawiaeth
Rhaid hel amryw geriach at wneud ei fagwriaeth
Bydd trafferth o fywaeth yn ccetlu ag yn shio
Cyn caffael ymadael o'ch gafael ag efo
A gwedi hynnu bydd y graith
Yn flot yw gweled lawer gwaith
Pan ddeloch chwi allan eilwaith
( Gwawr iraidd ) am garwriaeth
Chwi fyddwch ddi gymeriaeth
Fel fborion o achos barieth
Heb fawr gydymeth i chwi ar daith
Ond gwael yw'r modd mewn galar maith
Bydd i chwi'n fydod ddingcod ddwys

Wrth weled ymgyrch lewyrch lwys
Chwchwi drwy bwys a beffir
Dim croeso ni chynhigir
Daw hynny 'n fyd anifir, i beri trymder ficcir
A wylo'n wir galon wan 'rol treio llu mewn tre a Llan

4

Ni chewch i drwy gellwair 'nol unwaith ei golli
Mor gair da'n gyhoeddus p: bâch yn ei haeddu
Rhieni'i un moment a'r cerent o'u cyrre
A fyddan yn goegion ag oerion eu geirie
A'r hen garriade gynt, a dro'u eu gweflau fel y gwynt
A'u llydan wawd'ch lledol hwy ddwedent mor wybodol
Mae hon yn hen arferol, fe gaid mynd ond ymorol
I ddilio Bol mi ddalia bunt
'R dyna'i fwy'd yn rhwydd ar hynt
Gan hynny ymgroeiwch bawb mewn 'rh'ol
Cyn mynd ynglun i ddygyn ddol
Gochelwch wawd a balchder, cofiwch oll ar gyfer
Mai haws fw cadw mwynder, nag olrhain i orthrymder
Wrth goelio tyner ffalfter ffol
Peth anhawdd iawn troi doe'n ei ol.

Thomas Edwards *a'i* Cant.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY